Cynllun Datblygu Lleol Newydd 2018-2033

Papur Cefndir

# PC49: Fframwaith cynllunio sero net

**Cynllun i'w archwilio gan y cyhoedd**

**Rhagfyr 2025**

**This document is also available in English.**

Mae'r ddogfen hon ar gael i'w gweld a'i lawrlwytho ar wefan y Cyngor yn: www.conwy.gov.uk/cdlln Mae copïau hefyd ar gael i'w gweld yn y prif lyfrgelloedd a swyddfeydd y Cyngor a gellir eu cael gan y Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol, Coed Pella, Ffordd Conwy, Bae Colwyn LL29 7AZ neu drwy ffonio (01492) 575461. Os hoffech chi gael gair â swyddog cynllunio sy'n gweithio ar y Cynllun Datblygu Lleol ynglŷn ag unrhyw agwedd ar y ddogfen hon, cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio Strategol ar (01492) 575181 / 575445/ 575124 / 574232.

**Gellir darparu'r ddogfen hon ar Gryno Ddisg, yn electronig neu mewn print bras a gellir ei chyfieithu i ieithoedd eraill. Cysylltwch â'r Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar (01492) 575461.**

# Cynnwys


Cyflwyniad 2

Cyd-destun y Polisi 2

Dull y CDLIN 5

Adeiladau 5

Cludiant 6

Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel 7

Atafaelu carbon ar y safle 7

Cynllun Ynni Ardal Leol 8

Casgliad 9

**Cyflwyniad**

Mae'r ddogfen hon yn anelu at amlinellu'r polisi Carbon Net Sero sy'n berthnasol i fframwaith polisi cynllunio CDLIN CBSC. Mae sawl datrysiad carbon isel ac adnewyddadwy'n bodoli. Mae nifer o dechnolegau eisoes ar gael, megis gwynt, systemau ffotofoltaig solar, pympiau gwres, batris, rhwydweithiau clyfar; mae eraill, megis hydrogen, yn parhau i fod yn ansicr. Mae Rheoliadau Adeiladu ar ei hôl hi o ran sicrhau fod adeiladau newydd yn bodloni'r targedau net sero ar hyn o bryd. Mae CBSC wedi cynhyrchu Cynllun Ynni Ardal Leol sydd wedi nodi'r ymyraethau allweddol a fyddai'n helpu i fynd i'r afael â'r newid tuag at gyflawni targedau sero net. Er y caiff rhai ardaloedd eu harwain gan ddatblygwyr, mae cwmpas i ddatblygiadau newydd gyflawni mwy.

**Cyd-destun y Polisi**

Amlinellir polisïau cynllunio cenedlaethol yng Nghymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040, sy'n gynllun datblygu cenedlaethol 20 mlynedd ar gyfer Cymru gyfan. Cynhyrchwyd y cynllun hwn gan Lywodraeth Cymru ar gyfer y cyfnod hyd at 2040. Mae'r cynllun yn ceisio darparu strategaeth ar gyfer mynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol allweddol drwy'r system gynllunio gan gynnwys materion pwysig megis yr economi, tai a'r amgylchedd. Mae'n dangos ble dylid ymgymryd â datblygiadau sylweddol megis ynni, cludiant, dŵr a phrosiectau gwastraff. Mae'n dangos ble dylid cyflawni twf, pa isadeiledd a gwasanaethau sydd eu hangen, a sut gall Cymru helpu i fynd i'r afael â'r newid hinsawdd. Mae'n annog gwneud y defnydd gorau o adnoddau, creu cymunedau iach hygyrch, a diogelu ein hamgylchedd. Mae'r cynllun yn unol â Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn ogystal â nodi'r materion cynllunio sylweddol sy'n effeithio ar Gymru, bydd y cynllun datblygu cenedlaethol yn siapio ac yn cael effaith ar gyfeiriad polisïau cynllunio yng Nghymru i'r dyfodol, gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Lleol. Mae'r Cynllun Cenedlaethol yn nodi pedwar rhanbarth ar gyfer datblygu polisïau yng Nghymru i'r dyfodol - Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De-Orllewin Cymru a De-Ddwyrain Cymru.

Disgwylir i Gynlluniau Datblygu Strategol (CDS) gael eu paratoi ar gyfer pob un o'r rhanbarthau hyn. Bydd CDSau'n dylanwadu ar gynnwys (a hyd) CDLlau i'r dyfodol a bydd gan bob rhanbarth eu cyfleoedd a'u heriau eu hunain. Bydd materion ynni

rhanbarthol yn cael eu cynnwys yn y CDS ac yn gysylltiedig â phob Cynllun Ynni Ardal Leol.

Mae Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040 yn disodli Cynllun Gofodol Cymru. Yn wahanol i Gynllun Gofodol Cymru, mae gan y Cynllun Cenedlaethol statws cynllun datblygu ac felly'n fwy arwyddocaol. Mae'r Cynllun Cenedlaethol yn ddarn pwysig o'r jig-so cynllunio yng Nghymru. Yr hierarchaeth datblygu yw:

- Cymru'r Dyfodol: Cynllun Cenedlaethol 2040.
- Cynlluniau Datblygu Strategol (CDS).
- Cynlluniau Datblygu Lleol (CDLl).

Mae'n rhaid i CDSau a CDLlau fod yn gyson â'r Cynllun Cenedlaethol. Bydd y Cynllun Cenedlaethol hefyd yn berthnasol i brosiectau isadeiledd sylweddol drwy'r broses Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol. Felly, er bod y Cynllun Cenedlaethol yn gynllun Cymru gyfan, bydd yn llywio penderfyniadau ar brosiectau isadeiledd sylweddol cenedlaethol ac yn effeithio ar bolisïau cynllunio'r dyfodol ar lefel leol.


Mae targedau wedi cael eu gosod ar gyfer cynhyrchu ynni adnewyddadwy:
Cynhyrchu 70% o'r trydan a ddefnyddir yng Nghymru o ynni adnewyddadwy erbyn 2030.
I un Gigawat o gapasiti ynni adnewyddadwy Cymru fod mewn perchnogaeth leol erbyn 2030.
Bod prosiectau ynni newydd ag elfen o leiaf o berchnogaeth leol.

Polisi Cynllunio Cymru 12

Mae PCC Llywodraeth Cymru yn disgwyl i bob datblygiad newydd liniaru achosion newid yn yr hinsawdd yn unol â'r hierarchaeth ynni ar gyfer cynllunio, fel y'i dangosir yn y polisïau ynni canlynol. Bydd lleihau'r galw am ynni a defnyddio ynni'n fwy effeithiol, trwy leoliad a dyluniad datblygiad newydd, yn helpu i ateb y galw am ynni o ffynonellau ynni adnewyddadwy a charbon isel. Mae hyn yn bwysig iawn o ran cefnogi'r broses o drydaneiddio'r defnydd o ynni, megis trwy gynyddu'r defnydd o geir trydan a phympiau gwres. Mae gan bob agwedd ar yr hierarchaeth ynni

gyfraniad i'w wneud o ran helpu i gyflawni targedau datgarboneiddio ac ynni adnewyddadwy.

**Ffigur** Error! No text of specified style in document.**-1 - Yr Hierarchaeth Ynni ym maes cynllunio**




Mae'r system gynllunio'n chwarae rôl weithredol i helpu i sicrhau bod y targedau hyn yn cael eu cyflawni, o ran cynhyrchu ynni adnewyddadwy newydd a hybu mesurau effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau. Dylai hefyd gefnogi datblygiad newydd sy'n defnyddio ynni'n effeithiol iawn, yn cefnogi datgarboneiddio, yn mynd i'r afael ag achosion newid yn yr hinsawdd ac yn addasu i effeithiau'r argyfwng hinsawdd yn awr ac yn y dyfodol trwy ymgorffori mesurau lliniaru ac addasu effeithiol.

Ystyrir bod gan awdurdodau lleol ddylanwad sylweddol drwy eu rôl fel crewyr lleoedd. Fel awdurdodau cynllunio, bydd yn rhaid iddynt ddatblygu'r capasiti i gynllunio ar gyfer dyfodol carbon isel, gan alluogi teithio llesol a llai o deithio yn gyffredinol; darparu mynediad i gartrefi a busnesau at ynni carbon isel lleol, a chartrefi ac adeiladau cyhoeddus mwy ynni effeithlon. O ganlyniad, gofynnwyd i awdurdodau lleol weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau ynni lleol a rhanbarthol, a fydd yn darparu tystiolaeth gref i lywio'r cynlluniau creu lleoedd hyn ar gyfer cymdeithas sero net.

## Dull y CDLIN

**Buildings**

- Major development to go beyond Building Regs for regulated emmissions carbon reductions (fabric efficiency, electrification of heating, photovoltaics).
- Set up Carbon Offset Fund for building regulated operational emmissions only
- Obligation to calculate and mitigate whole life carbon of major development.

**Transport**

- Adopt Shift/Avoid/Improve Framework
- EV Charging points at building and community level. Supported by new development and through LAEP interventions.
- Obligation to calculate and mitigate for whole life carbon development.

**Renewable and Low Carbon Energy**

- Large scale ground PV and onshore wind
- support for LAEP interventions
- Tidal lagoon through LAEP and NW Energy Strategy

**On-site carbon sequestration**

- street scale tree planting and urban reserves identified by CCBC or 3rd parties
- Tree planting targets on development sites
- Obligation to prepare NZ Land Management Plan.

## Adeiladau

Mae’r sector adeiladau preswyl yn cynnwys allyriadau sy’n deillio o ddefnyddio ynni mewn cartrefi, yn ogystal â gwaith i leihau carbon ymgorfforedig wrth adeiladu ac ôl-osod adeiladau preswyl.

Roedd adeiladau preswyl yn cyfrif am 10% o allyriadau Cymru yn 2019. Llosgi tanwydd (ar gyfer gwresogi a choginio) mewn adeiladau preswyl yw prif ffynhonnell allyriadau, gan gyfrif am 97% o allyriadau'r sector a 9.3% o gyfanswm allyriadau Cymru.

Erbyn 2025, mae Llywodraeth Cymru’n gobeithio y bydd wedi cyflawni’r uchelgeisiau canlynol yn y sector hwn:

- Maent yn disgwyl y bydd mesurau ôl-osod i leihau faint o wres sy'n cael ei golli wedi'u cwblhau mewn 148,000 o dai yng Nghymru.
- Maent yn anelu i symud i ffwrdd oddi wrth danwyddau ffosil drwy gynyddu

cyfran y gwres sydd wedi'i drydaneiddio o 3%.

- Bydd pob tŷ fforddiadwy newydd a adeiledir yng Nghymru yn cyrraedd safon carbon sero net, a'n huchelgais yw y bydd pob datblygwr cartrefi newydd, ni waeth beth fo deiliadaeth y cartrefi hynny, yn mabwysiadu ein safonau sero net erbyn y dyddiad hwn.

Mae tri maes lliniaru eang ynghyd â pholisïau a chynigion i'w cyflawni i'w gweld yn Ffigur 4. Bydd cyfryngau cyflawni megis y rheoliadau cynllunio, rheoliadau adeiladu, a chodau adeiladu'n cael eu trafod yn nes ymlaen yn yr adroddiad.

Mae Polisi EN/2 yn ymwneud â chyflawni adeiladau carbon sero net o ran gofynion rheoli datblygu, mae EN/3 yn ymwneud ag effeithlonrwydd ynni mewn adeiladau ac EN/7 yn ymwneud â gwrthbwyso carbon.

**Cludiant**

Cludiant Carbon Sero Net

Mae'r sector trafnidiaeth yn ffynhonnell fawr o allyriadau nwyon tŷ gwydr, a chydnabyddir yn eang y bydd yn heriol cyflawni'r gostyngiad cyflym mewn allyriadau sy'n angenrheidiol gan y sector i gyfrannu tuag at gyrraedd targedau sero net ac ymrwymiadau lleihau carbon interim.

Mae allyriadau carbon trafnidiaeth yn dibynnu'n uniongyrchol ar nifer y cilometrau a deithir mewn cerbyd a'r allyriadau a gynhyrchir fesul cilometr gan gerbyd. Felly, er mwyn cyflawni datgarboneiddio, mae'n rhaid i'r mesurau a gyflwynir:

- Leihau pellter teithio cerbydau; a / neu
- Lleihau'r allyriadau sy'n cael eu cynhyrchu ar y cilometrau teithio mewn cerbydau sy'n weddill, a fydd yn dibynnu ar newidiadau mewn math o danwydd / ynni, dyluniad y cerbyd a ffactorau megis cyflymder gyrru.

Mae'r rhan fwyaf o drafnidiaeth yn **'alw deilliedig'** – teithiau a wneir i gael mynediad at wasanaethau, gweithgareddau neu gyfleoedd. Yr her allweddol i ddatgarboneiddio'r sector trafnidiaeth, felly, yw nodi mesurau sy'n darparu mynediad at wasanaethau a chyfleoedd cyfwerth mewn modd amgen, mwy effeithlon. Mae'r

mesurau wedyn yn lleihau’r teithio sydd ei angen ar gyfer hygyrchedd, a’r defnydd o ynni a’r allyriadau sy’n gysylltiedig â’r teithio.

Polisi STA/1 yw’r polisi cyffredinol sy’n cwmpasu’r bennod gludiant yn y CDLIN, mae’n ymdrin ag ynni, teithio llesol, datgarboneiddio, Trydan a Cherbydau Gollyngiadau Isel Iawn.

**Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel**

Mae'r BP63 “Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel” yn cwmpasu technolegau cyfredol a thechnolegau'r dyfodol gan gynnwys ynni ffotofoltäig solar ac ynni gwynt a'r angen am rwydweithiau clyfar i wneud y mwyaf o'r cynhyrchiad a'r dosbarthiad o'r fath yng Nghonwy. Mae BP60 “Astudiaeth mireinio lleol ar gyfer gwynt a solar” yn darparu gwybodaeth ychwanegol sy’n diffinio’r ardaloedd lle byddai egwyddorion gwynt a solar yn ddisgwyliedig. Roedd hyn yn dilyn cwblhau ymarfer desg i fapio cyfyngiadau; fodd bynnag, mae dal angen cynnal arolygon safle ac ymchwiliadau cysylltiad grid.

Polisi EN/1 yw’r polisi cyffredinol sy’n cwmpasu’r bennod gludiant yn y CDLIN, mae’n ymdrin ag ynni, solar a gwynt, a gwrthbwyso carbon. Mae EN/8 yn ymwneud â chysylltu â’r grid a storio ynni.

**Atafaelu carbon ar y safle**

Mae BP62 yn ymdrin ag atafaelu carbon mewn rhagor o fanylder, gan gynnwys asesu safleoedd strategol.

Yn ymarferol, bydd cyflawni allyriadau Sero Net yn nyraniadau safle arfaethedig CDLl Conwy yn golygu, unwaith y bydd yr holl fesurau lleihau allyriadau carbon ymarferol wedi'u cymhwyso i ddatblygiad, atafaelu allyriadau carbon gweddilliol cyfatebol o'r atmosffer trwy atebion sy'n seiliedig ar natur fel plannu coed a newidiadau mewn arferion rheoli tir ar y safle (o fewn ffiniau'r datblygiad arfaethedig), neu oddi ar y safle (yn rhywle arall yn y Fwrdeistref Sirol neu y tu hwnt).

Yn yr adran uchod, archwiliwyd effaith alldyniadau tir ar y safle o goetir llydanddail ar gyfer y safleoedd strategol a sefydlwyd pwysigrwydd gwneud y mwyaf o'r alldyniadau hynny. Fodd bynnag, gall datblygiad newydd wneud y mwyaf o orchudd llystyfiant (nid coetir yn unig) trwy ei ymgorffori yn y dyluniad ar ddwy lefel gyda manteision hyd yn oed yn uwch o ran atafaelu carbon:

- Plannu ar raddfa stryd: Llystyfiant yn y gofod trefol gyda strydoedd coediog, waliau gwyrdd, gwrychoedd brodorol, planhigion mewn gerddi blaen a chefn.
- Cronfeydd trefol: Ardaloedd mwy o blannu wedi'u neilltuo o fewn yr ardal ddatblygu i'w defnyddio fel gofod cymunedol. Gallai hyn gynnwys ardaloedd o goetir, dolydd, neu ofod tyfu bwyd cymunedol.

Unwaith y bydd y cyfleoedd gorau i atafaelu carbon wedi'u sicrhau ar y safle, byddai angen i unrhyw allyriadau gweddilliol gael eu hatafaelu oddi ar y safle, naill ai gan y datblygwr neu gan y Cyngor ar ran y datblygwr, i gyrraedd targedau sero net.

Mae Polisi EN/7 yn ymwneud â Gwrthbwyso Carbon

**Cynllun Ynni Ardal Leol**

Mae BP55 Cynllun Ynni Ardal Leol Conwy yn nodi gweledigaeth ar gyfer edrychiad system ynni di-garbon yn 2050, ac yn disgrifio’r camau gweithredu allweddol sydd yn rhaid i Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy eu cymryd rŵan.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a ddatblygwyd ar gyfer y Cynllun Ynni Ardal Leol, amlinellir y prif feysydd ymyrraeth a flaenoriaethir isod. Mae’r rhain yn cynrychioli’r meysydd lle bydd arnom ni angen gwneud newidiadau ffisegol i’r system ynni. Er mwyn cefnogi’r modd y cyflawnir amcanion ehangach y cynllun, bydd angen eu cefnogi gyda’r dulliau llywodraethu ac ymgysylltu, a’r amgylchedd polisi a chyllid cywir.

Ymyraethau allweddol Cynllun Ynni Ardal Leol Conwy:

1. Ôl-osod mewn adeiladau cyfan.
2. Datblygu isadeiledd cyhoeddus i wefru cerbydau trydan.
3. Datblygu fferm wynt ar y môr (estyniadau a datblygiadau newydd).

4. Datblygu isadeiledd morlyn llanw.
5. Datblygu ynni adnewyddadwy ar y tir (Gwynt ar y Tir a Systemau Fotofoltäig ar y Tir) a mannau storio cysylltiedig.
6. Datgarboneiddio gwres eiddo nad ydynt ar y grid nwy.
7. Lleihau'r galw am ynni gan drafnidiaeth drwy fesurau teithio llesol.

Mae Polisi EN/9 yn cynnwys Cynllun Ardal Leol Conwy a chefnogaeth mewn egwyddor ar gyfer mynd i'r afael â'r ymyraethau.

**Casgliad**

Ystyrir bod gan awdurdodau lleol ddylanwad sylweddol drwy eu rôl fel crewyr lleoedd. Fel awdurdodau cynllunio, bydd yn rhaid iddynt ddatblygu'r capasiti i gynllunio ar gyfer dyfodol carbon isel, gan alluogi teithio llesol a llai o deithio yn gyffredinol; darparu mynediad i gartrefi a busnesau at ynni carbon isel lleol, a chartrefi ac adeiladau cyhoeddus mwy ynni effeithlon. O ganlyniad, gofynnwyd i awdurdodau lleol weithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatblygu cynlluniau ynni lleol a rhanbarthol, a fydd yn darparu tystiolaeth gref i lywio'r cynlluniau creu lleoedd hyn ar gyfer cymdeithas sero net.

Mae'r CDLlN, ynghyd â gwaith ar y cyd, yn allweddol ar gyfer darparu ymyraethau Cynllun Ynni Ardal Leol Conwy. Er y gall y CDLlN ddarparu'r polisi i gefnogi a rheoli datblygiad a nodi ac asesu addasrwydd defnydd tir, mae dibyniaeth ar ardaloedd eraill a arweinir gan ddatblygwyr.

Mewn egwyddor, dylai pob datblygiad ddangos ystyriaeth i adeiladu a dylunio cynaliadwy yn unol â'r targedau sero net. Yn ogystal, dylai pob datblygiad ystyried trydaneiddio gwres. Dylid archwilio hyn drwy Strategaeth Ynni sy'n nodi opsiynau carbon isel i gefnogi'r cynigion datblygu.

Er bod risgiau o fewn cyfnod y cynllun mewn perthynas â newid gwleidyddol o ran lefel y gefnogaeth ar gyfer targedau sero net, ein bwriad yw cefnogi Cynllun Ynni Ardal Leol Conwy a'r fframwaith gan anelu at gyflawni statws di-garbon net a gweithio tuag at ddatblygiadau carbon-gadarnhaol lle bo modd, yn arbennig ar gyfer datblygiadau mawr.